**EXD612 (Cy) (GL)**

Llywodraeth Cymru

Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003 (fel y'i diwygiwyd) – erthygl 5A

# Trwydded Gyffredinol o dan Orchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003 (fel y'i diwygiwyd)

---

A finnau, sydd wedi llofnodi isod, yn arolygydd milfeddygol a benodwyd gan Weinidogion Cymru at ddibenion Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003 (fel y'i diwygiwyd) ("y Gorchymyn"), yn caniatáu'r symudiadau y cyfeirir atynt yn erthygl 5A(4) a (5) o'r Gorchymyn, yn unol â'r amodau a ddisgrifir yn y Rhestr atodedig. Rhoddir y drwydded hon heb ragfarnu unrhyw gyfyngiadau symud a wneir o dan Reoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd) ("y Rheoliadau"), ac yn benodol nid yw'n effeithio ar weithrediad y mesurau ym mharagraffau 1-3 o Atodiad 2 i'r *Datganiad o Barth dan Gyfyngiadau ac Ardal Heintiedig*, dyddiedig 10 Tachwedd 2025 sy'n dod i rym am 00:01 ar 10 Tachwedd 2025 ac sy'n parhau i fod yn gymwys yn y parth dan gyfyngiadau sy'n destun unrhyw drwydded a roddir o dan y Rheoliadau.

Daw'r Datganiad hwn i rym o 00:01 ar 10 Tachwedd 2025

Llofnodwyd gan: Dr Klara Saville MRCVS

Arolygydd Milfeddygol a benodwyd gan Weinidogion Cymru.

Dyddiad: 01/11/2025

**Rhestr o'r Amodau**

1. Ni chaiff y safle y dechreuir y symudiad ohono fod yn destun hysbysiad cyfyngu ar safle tafod glas.
2. Ni chaiff safle'r cyrchfan fod yn destun hysbysiad cyfyngu ar safle tafod glas.

**Nodiadau:**

1. Ystyr "*y Gorchymyn*" yw Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003 (fel y'i diwygiwyd)
2. Ystyr "*y rheoliadau*" yw Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd).
3. Ystyr "anifail" yw anifail sy'n cnoi cil, neu gamelid. Mae anifeiliaid cnoi cil yn cynnwys ymhlith eraill gwartheg, defaid, geifr a cheirw. Mae camelidau yn cynnwys camelod, lamas ac alpacas.
4. Mae'r drwydded hon yn awdurdodi symudiad sydd fel arall wedi'i wahardd yn sgil datgan Ardal Heintiedig o dan Erthygl 5A o'r Gorchymyn mewn perthynas â chlefyd y tafod glas. Mae hyn heb ragfarnu unrhyw gyfyngiadau symud a wnaed o dan Reoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd) neu gyfyngiadau symud eraill sy'n berthnasol yn yr ardal. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi gadw at gyfyngiadau yn y rheoliadau, ac unrhyw ddatganiad, hysbysiad, dynodiad, trwydded neu gyfarwyddyd arall a roddwyd o dan y rheoliadau.
5. Rhaid i berson sy'n symud unrhyw beth o dan awdurdod y drwydded hon roi ei enw a'i gyfeiriad, dangos y nodyn cludo a chaniatáu i rywun wneud copi o'r nodyn cludo neu o ran ohono, os gofynnir iddo wneud hynny gan arolygydd neu un o swyddogion eraill Gweinidogion Cymru.
6. Rhaid i systemau cadw cofnodion fod ar waith er mwyn sicrhau y gellir olrhain pob symudiad o'r safle cychwynnol i safle'r cyrchfan.
7. Os ydych chi'n amau bod achos o glefyd hysbysadwy yng Nghymru, rhaid ichi roi gwybod i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ("APHA") ar unwaith, ar 03003 038 268.
8. Rhaid cydymffurfio â phob deddfwriaeth berthnasol arall.
9. Cysylltwch ag APHA ar y rhif uchod, neu â'ch Awdurdod Lleol, i gael rhagor o gyngor ynghylch mesurau bioddiogelwch ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall a all fod yn berthnasol.

Bydd unrhyw berson sy'n torri unrhyw ofyniad neu waharddiad mewn trwydded a wneir o dan Orchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003 yn euog o drosedd ac o'i gael yn euog mewn llys ynadon, gallai gael ei garcharu am gyfnod nad yw'n fwy na chwe mis neu ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol neu'r ddau,